



# BEICS ANTUR

Canolfan newydd ym Mhorth yr Aur, Caernarfon, sy'n gartref i wasanaeth llogi a thrwsio beics, gyda ail lawr 105m<sup>2</sup> ar gyfer 'Llofft Llesiant' i gynnal gweithgareddau i'r gymuned leol.

Cred Antur Waunfawr y dylai pawb allu mwynhau beicio a gweithgareddau ffitrwydd a hamdden, a'r manteision iechyd sy'n gysylltiedig. Mae llawer o bobl anabl, y difreintiedig, a'r henoed yn dal i wynebu rhwystrau mynediad i gyfleoedd beicio a ffitrwydd, boed yn gorfforol neu'n agweddol. Mae Beics Antur eisiau newid hynny, a sicrhau fod y cyfleoedd yma yn agored i gymaint o bobl â phosib.



## Prif amcanion...

Cynnig gwasanaeth safonol llogi a thrwsio beics yn ganol y dref.

Fod yn ganolfan canolog i feicwyr yn yr ardal, ac i glybiau beicio lleol.

Cynnig lleoliad hyfforddiant i dros 65 o unigolion ag anableddau dysgu.

Cynnig gofod hygyrch ac ystafell synhwyrdd i'w ddefnyddio gan y gymuned.

Datblygu rhaglen o gyfleoedd iechyd a llesiant newydd, hygyrch, i'r gymuned leol.

Creu cyfleoedd i'r ddifreintiedig yn ardal Caernarfon.

Datblygu partneriaethau gyda grwpiau megis Age Cymru a Mam a'i Phlentyn.

Cynnal swyddi'n lleol a chreu hyd at 2,500 o oriau gwirfoddoli y flwyddyn.



**Fel menter gymdeithasol, caiff ein holl elw ei ail-fuddsoddi yn ôl i'n helusen a'n gwaith pwysig i gefnogi oedolion ag anableddau dysgu i fyw a gweithio yn eu cymunedau.**